



# Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

## DARPARU'R ARCHIF – DULL MODIWLAIDD

David Thomas, Pennaeth Gwasanaethau Cyhoeddus, a Tom Pert, Rheolwr Datblygu Ar-lein, [Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru](#)

English Hybrychedd

Chwilio

Coflein

Hafan Amdanom Safleoedd Archif Oriellau Map Cysylltwch

Y catalog ar-lein o archaeoleg, adeiladau a threftadaeth ddiwydiannol ac arforol yng Nghymru

Chwilio Safleoedd

adborth

Cafodd y Bartneriaeth SWISH (Shared Web Information Services for Heritage) ei chreu yn 2002 gan Gomisiynau Brenhinol yr Alban a Chymru i rannu'r gwaith o ddatblygu systemau gwybodaeth ar gyfer rheoli cynnwys eu harchifau a threfnu iddynt fod ar gael i'r cyhoedd. Cafodd Coflein, archif ar-lein cyhoeddus Comisiwn Brenhinol Cymru, ei lansio flwyddyn yn ddiweddarach, a chaiff ei ddefnyddio o hyd i ddarparu'r rhestr o safleoedd, y cofnodion archifol cysylltiedig, a'r cynnwys digidol at ddefnydd y cyhoedd. Gyda 400,000 o ddefnyddwyr bob blwyddyn, Coflein yw un o elfennau hanfodol gwasanaethau cyhoeddus y Comisiwn. Mae'n rhoi mynediad i bron 120,000 o gofnodion safle, mwy na 400,000 o gofnodion catalog, a mwy na 170,000 o eitemau digidol.


[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan  
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.

Er bod y bartneriaeth SWISH yn parhau i ddarparu datrysiad cadarn ac arloesol, mae'r penderfyniad i symud i ffwrdd ohoni yn adlewyrchu newid yn natur y bartneriaeth yn sgil cyfuno Comisiwn Brenhinol yr Alban â Historic Scotland. Mae hefyd yn adlewyrchu dymuniad Comisiwn Cymru i ddatblygu datrysiad mwy hyblyg, i feithrin sgiliau a dealltwriaeth o fewn y sefydliad, ac i ffurfio perthynas nes â sefydliadau diwylliannol eraill yng Nghymru.

Seiliwyd yr ymchwiliadau cychwynnol i drefn a allai gymryd ei lle ar ddatrysiad o fath tebyg, ond daeth yn amlwg yn fuan iawn y byddai hyn yn gofyn am waith datblygu sylweddol a chostus. Wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo, daeth buddion y dull modiwlaid, a oedd wedi'i fabwysiadu gan sefydliadau fel Amgueddfa Cymru a Manx Heritage, yn glir, er enghraifft, costau is, dyluniad hyblyg, a llai o ddibyniaeth ar un darparwr.

Bydd y prosiect datblygu sy'n seiliedig ar y dull modiwlaid yn cael ei gwblhau ar ddiwedd Mawrth 2020. Mae'n defnyddio haen wybodaeth wedi'i chwmwl-westeia sydd wedi'i seilio ar yr ARCHES ar gyfer data am safleoedd ac ar Access to Memory (AtoM) ar gyfer gwybodaeth catalog. Meddalwedd ffynhonnell agored yw'r ddau: mae'r cyntaf wedi'i adeiladu ar y safon data MIDAS a'r ail ar ISAD(G). Bydd dewisiadau storio data posibl gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cynnig cyfle ar gyfer ymagwedd gydweithredol at gadwraeth ddigidol yn y dyfodol, a bydd gwasanaethau rheoli asedau digidol yn cael eu darparu drwy iBase. Y datrysiad canolwedd, a fydd yn integreiddio'r haen wybodaeth ac yn ei danfon i wasanaeth ar-lein Coflein wedi'i ailddylunio, yw CIIM gan Knowledge Integration.



## Bywgraffiad

Pennaeth Gwasanaethau Cyhoeddus y Comisiwn Brenhinol yw David Thomas. Mae ef wedi gweithio i'r Comisiwn am fwy nag ugain mlynedd, ac roedd yn rhan o'r tîm a greodd y gwasanaeth ar-lein Coflein mewn partneriaeth â Chomisiwn Brenhinol yr Alban gynt. Mae ar hyn o bryd yn Gynullydd y Fforwm ar gyfer Safonau Gwybodaeth mewn Treftadaeth.

Rheolwr Datblygu Ar-lein y Comisiwn Brenhinol yw Tom Pert. Mae'n gyfrifol am ddatblygu'r wefan a gwasanaethau eraill, ac mae hefyd yn arwain y llinyn arloesedd ar gyfer Casgliad y Werin Cymru. Ef yw rheolwr prosiect Darpariaeth Ddigidol y Comisiwn.